

CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER
4 CHWEFROR 2015, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL:		
Cyng D I Roberts, N Jones, A Evans, S Hughes, R Edwards, G Roberts, J Evans (Cyngor Sir), A W Mummery (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)		
YMDDIHEURIADAU:		
Cyng R Davies, Cyng M Jones (Cyngor Sir)		
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.	
2	DATGAN DIDDORDEB – Dim	
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 7 Ionawr 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng A Evans yn cynnig a Cyng N Jones yn eillio.	
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION	
4.1	Eglwys Sant Gredifael - Mae y Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru	
4.2	Dol Fraint, Star (Ilwybr) - Mewn llaw (bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir)	
4.3	Cyflymder Penmynydd - Bydd y Clerc yn cynnig gwahoddiad i'r Cyngor Sir i'r cyfarfod nesaf	
4.4	Lon Garnedd Isaf - mewn llaw	
4.5	HGV Penhesgyn - Darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir yn cadarnhau nid oes cytundeb i nadu HGV's defnyddio y lon gefn at Star	
4.6	Sedd wag - Mae'r Clerc wedi derbyn un cais am y sedd wag gan Mr Elfed Williams, Gweirglodd Bach, Penmynydd. Penderfyniwyd cynnig y sedd i Mr Williams	
4.7	Eglwys Sant gredifael (Y fynwent) - Mae y Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru	
4.8	Beinciau (englyn) - Penderfyniwyd symud ymlaen gyda cynnig Cyng M Jones: Er cof 1914 - 1918 'Leni ac ers canmlynedd – mae hiraeth Am arwyr a'u rhinwedd, Yn astud awn i eistedd A choffau'n hogiau mewn hedd. Bydd y Clerc y trefnu cael prisiau am 3 plaque	
5	Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon	
	Cynllunio	
5.1	Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Y Cynllun Adnau - Gofynwyd i'r Clerc anfon y linc at yr aelodau a rhoi ar yr agenda mis nesaf	
5.2	41C66G/RE Cais llawn ar gyfer codi un twrbin wynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 24.8m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 19.2m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 34.5m, creu trac fynedfa ynghyd a chodi cabinet storio offer ar dir yn Marchynys, Penmynydd - Sylwadau y Cyngor: (dau o blaid a tri yn erbyn) Byddai'n tyrbîn hwn yn goruchafu'r amgylchfyd, yn ymyrraeth weledol sylweddol ac yn achosi difrod diamheuol i gymeriad naturiol ardal Rhanbarth 12 , sy'n amddiffynfa allweddol i'r Fenai.	
	Llofnod	Cadeirydd 04.03.15

	<p>Yn nhermau gweledol a synhwyrdd, mae LANDMAP yn disgrifio'r dirwedd fel dymunol ond heb rinwedd ac yn ddi-nod. Mae'r geiriau 'heb rinwedd' a 'di-nod' yn awgrymu lefel uchel o unffurfiaeth heb fawr ddim nodweddion o bwys, yn hytrach na chael ei ddefnyddio mewn modd bychanus. Wrth gyflwyno elfen mor drawiadol i'r dirwedd, byddai'r cynnig yn lleihau'n sylweddol ei effeithiolrwydd fel byffer neu amddiffynfa ac yn lleihau'n sylweddol ei sensitifrwydd i newidiadau pellach. Byddai'n achosi ymwithiad gweledol difaol i'r dirwedd ehangach, yn weladwy o'r AHNA, Parc Cenedlaethol Eryri, y tir mawr a sawl man arall ar yr Ynys. Yn ychwanegol i hyn, byddai'n cyflwyno gwrthrych estron i ardal sydd heb ei difethaf.</p> <p>Mae'r safle awgrymedig yn gorwedd o fewn tirwedd o werth arbennig gyda nodweddion cefn gwlad trawiadol sy'n teilyngu cydnabyddiaeth arbennig. Yn ôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yn nhermau gwerth tirwedd hanesyddol, mae'r ardal ble yr arfaethir gosod y tyrbîn hwn yn cael ei ystyried yn 'arbennig' ac yn 'nodweddu esblygiad Ynys Môn fel ardal wledig yn ei hanfod'. Byddai effaith negyddol y tyrbîn yn effeithio ar y safle arbennig hwn ac ar nifer o fannau rhestredig a hanesyddol, yn benodol lleoliad Tŵr Marcwis, sydd yn nodwedd hanesyddol ac yn goruchafu yn yr ardal.</p> <p>Yng Ngogledd yr Ynys mae yna nifer o dyrbinâu mawr a chanolig eu maint yn barod a byddai'r safle awgrymedig yn cychwyn symudiad deheuol i'r ardal nodweddiadol wledig fwyaf yn ne ddwyrain y Sir, ardal sydd hyd yma yn parhau yn rhydd o dyrbinâu o unrhyw fath.</p>
5.3	41C22E cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu sydd yn cynnwys balconi Juliet yn Gweirglodd Bach, Penmynydd - dim sylwadau
5.4	41C109E/DA cais am faterion a gadwyd yn ol ar gyfer codi annedd, creu fynedfa i gerbydau ynghyd a gosod tanc septig ar dir ger Artwood, Star - dim sylwadau
	Adran Gwastraff
5.5	Penhesgyn - HGV - gweler 4.5
	Priffyrdd
5.6	Cyflymder Penmynydd - gweler 4.3
	Amgylchedd
5.7	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad - Ychwanegu llwybrau - gwybodaeth yn unig
5.8	Cais i wyro llwybr cyhoeddus - dim sylwadau
6	Gohebiaeth Ychwanegol
6.1	National Grid - diweddariad - gwybodaeth yn unig
6.2	Cais am y sedd wag - gweler 4.6
	<p>Llofnod Cadeirydd 04.03.15</p>

7	MATERION ARIANNOL
7.1	Mae'r Cyngor Sir wedi talu £2329.00 (trwy camgymeriad - pres grant Cyngor Bryngwran) i mewn i cyfrif y Cyngor. Penderfyniwyd gwneud ad-daliad
7.2	Aelodaeth Unllais Cymru £62.00. 'roedd yr aelodau yn teimlo bod y tal yn uchel ac nid ydynt yn cytuno a'r ffordd y mae'n cael ei gyfrifo. Gofynwyd i'r Clerc ymgynghori a chynghorau cymuned eraill am eu barn.
8	MATERION ERAILL
8.1	Tyllau Bryn Ffynnon, Star - mae y "gang cymunedol" yn llenwi y tyllau
	Llofnod Cadeirydd 04.03.15